



Mae'r 'cynnig i gyflogwyr' yn cynnig amrywiaeth eang o wasanaethau, cefnogaeth ac adnoddau rydyn ni wedi'u creu a'u cyfuno ar gyfer cyflogwyr i'ch helpu yn eich rôl.

Rheoliad - Eich helpu i ddarparu gofal a chymorth proffesiynol a diogel

- Mynediad at Gofrestr o weithwyr proffesiynol ym maes gofal cymdeithasol.
- Adnoddau a fideos ar ganllawiau i gofrestru.
- Codau ymarfer a chanllawiau ar gyfer y rheini sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol.
- Porth Gofal Cymdeithasol Cymru ar-lein i reoli cofrestradau.
- Prosesau addasrwydd i ymarfer ar gyfer rhoi gwybod am bryderon a delio â nhw.
- Siop un stop ar gyfer amrywiaeth o adnoddau am ddeddfwriaeth gofal cymdeithasol Cymru.



Cefnogi eich gweithlu – Eich helpu i recriwtio pobl newydd, eu cadw a'u cefnogi

- Ymgyrch Gofalwn Cymru, porth swyddi a chynllun gwarantu cyfweiliad i gefnogi recriwtio a chadw staff yn y sector.
- Cerdyn gweithiwr gofal ar gyfer unrhyw un sy'n cael ei gyflogi mewn rôl gofal yng Nghymru, i gydnabod y rheini sy'n gweithio yn y sector ac i ddarparu mynediad at wahanol fudd-daliadau.
- Cefnogaeth i bobl gofrestredig, dioddefwyr a thystion sy'n ymwneud ag ymchwiliadau a gwrandawiriadau addasrwydd i ymarfer.
- Adnoddau a gwybodaeth am lesiant y gweithlu, gan gynnwys Canopi.
- Gwybodaeth am gymwysterau, bwrsariau, prentisiaethau a chyllid.

Gwella gwasanaethau – Mynediad at adnoddau, data a gwybodaeth i wella ymarfer

- Cyfleoedd i ymgysylltu â ni a helpu i siapio ein gwaith.
- Adnoddau i gefnogi dysgu a dealltwriaeth o bynciau fel dementia, y blynyddoedd cynnar a gofal plant, canlyniadau personol a diogelu.
- Cyfleoedd i fynychu digwyddiadau, hyfforddiant a chynadledau.
- Mynediad at wybodaeth am ein dull gweithredu a'n cynlluniau ar gyfer ymchwil, data ac arloesi ar draws gofal cymdeithasol.
- Adnoddau i'ch helpu i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith.
- Porth Data Gofal Cymdeithasol Cymru i helpu i greu darlun o ofal cymdeithasol a chymorth ledled Cymru.
- Mynediad at e-Lyfrgell GIG Cymru i weithwyr cymdeithasol a rheolwyr gofal cymdeithasol.
- Amrywiaeth o fodiwlau dysgu ar-lein.

**Darganfyddwch mwy ar
gofalcymdeithasol.cymru/cefnogi-cyflogwyr**